COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 8FED HYDREF 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Maer, Y Cynghorydd N. Bastow
Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr B. Barton, D. Bradley, G. Campbell, Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), C. Matthews, M. Tasker, S. Williams, M. Worth.

SWYDDOGION: Mrs Tina Earley Clerc y Dref
Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

193/19 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, a J. Pearson (Warden Coed).

194/19 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

195/19 Cofnodion:

a) ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17eg Medi 2019 yn adroddiad cywir.***
b) ***Penderfynwyd derbyn cofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor y Tân Gwyllt a gynhaliwyd ar 10fed Medi 2019.***

196/19 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol:

a) **Cofnod 182/19(b) - Biniau Sbwriel:**
   (i) Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn cadarnhau y byddent yn barod i newid y bin sbwriel mwyaf y tu allan i Siop Spar gydag un llai o Ardd y Dywysoges Diana yn Llandrillo yn Rhos. Fe nodwyd, fodd bynnag nad oedd fflapiau ar y bin mawr ac fe all hyn greu problemau gyda gwylanod.
   (ii) Fe nodwyd mai'r pris am fin newydd gyda fflapiau byddai oddeutu £500 ac nad oes gan y Cyngor Sir unrhyw gyllid na chyflenwad o finiau eraill ar gael i gymryd ei lle.

   Penderfynwyd argymell i gadarnhau'r cais i newid y bin gyda Spar.

   Fe benderfynwyd ymhellach bod yr aelodau lleol i gadw llygad ar gyflwr y biniau yn eu wardiau ac i ystyried defnyddio cyllid lwfans ward os byddant yn gweld bod angen cael rhai newydd.

b) **Cofnod 182/19(d) - Ymchwil ar Ddigonedd o Chwarae:**

Cyflwynodd y Cynghorydd G. Campbell adroddiad ar lafar am gyfarfod diweddar y grŵp ffocws, pan rannwyd canlyniadau'r prosiect ymchwil

diweddar, lle derbyniodd CBSC / Bae Colwyn rhywfaint o adborth cadarnhaol, yn arbennig gyda'r ddarpariaeth o fynediad agored i chwarae'r haf. Mae Conwy yn canolbwyntio ar 'yr hawl i chwarae' a bod digonedd o gyfleusterau ar gael i ymdrin ag anghenion i gael plant i chwarae ac i sicrhau bod mannau chwarae o fewn cyrraedd pawb; nid yn arbennig trwy gynnwys pob offer, ond trwy ddefnyddio amgylcheddau chwarae mwy naturiol.

Fe nodwyd bod 'cynildeb' wedi rhoi cyfle i ail-ystyried y ddarpariaeth o chwarae traddodiadol ac i ystyried strategaeth sy'n wahanol i feysydd chwarae mwy ffurfiol. Bydd yn rhaid ymdrin â rhai o'r rhwystrau sy'n galluogi plant i chwarae mewn mannau mwy anffurfiol, megis pryderon rhieni, gwrthwynebiadau gan bobl sy'n byw gerllaw, tir yn cael ei breifateiddio ayb. Fodd bynnag, fe all y system cynllunio helpu trwy annog mwy o gyfleoedd chwarae rhydd ar safleoedd datblygu newydd, gyda mannau gwelltog, coediog anffurfiol ayb (ag arwyddion 'dim chwarae pêl'). Fe ddylai toiledau ger mannau chwarae hefyd fod yn rhwydd i'w defnyddio gan bobl gydag anableddau / plant.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Cambwll am ei hadroddiad cynhwysfawr ac addysgiadol.

c) Cofnod 171/19(f) – Noson Tân Gwyllt:

(i) Fe nodwyd y trefniadau ar gyfer y digwyddiad eleni a rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar lafar i ddweud na fydd maes parcio'r Ganolfan Ddinesig ar gael eleni.

(ii) Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth e-bost oddi wrth y Swyddog Diogelu'r Digwyddiad yn argymell y dylid cael cwmni lleol i roi'r diogelwch ar gyfer digwyddiad eleni yn hytrach na thîm Ambiwlans St Ioan lleol. Fe nodwyd bod y digwyddiad wedi tyfu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfrif pennau dros y ddwy flynedd diwethaf yn cadarnhau y bu oddeutu 7,500 yn bresennol. Mae hyn yn dod a'r digwyddiad i lefel risg uchel sy'n golygu rhaid i'r lefel o ddiogelwch cymorth cyntaf / parafeddygon fod yn ddigonol. Cynigodd y Swyddog Diogelu'r Digwyddiad nifer o resymau i newid y darparwr diogelwch, yn cynnwys y lefel o hyfforddiant / arbenigedd y tim Medic Skills, eu profiad o weithio mewn digwyddiadau o bwys ym Mharc Eirias a'u gwybodaeth am y gweithdrefnau o weithio gyda Rheoli Digwyddiadau mewn achosion o ddigwyddiadau difrifol. Fe nodwyd nad oedd y pris a roddwyd am ddarparu cymorth cyntaf / parafeddygon ar gyfer y digwyddiad (£300) yn annhebyg i bris St Ioan.

Penderfynwyd cefnogi'r newid yn y ddarpariaeth ar gyfer digwyddiad eleni am y rhesymau a amlinellwyd uchod.

197/19 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol a dderbyniwyd oddi wrth GBSC i gael ei ystyried;

a) Rhybudd o Geisiadau am Reoliadau Traffig Dros Dro yn:

(i) Ffordd Greenfield hyd at Lwybr Cyswllt y Promenâd - 4/11/-20/12/2019 (Gwaith Dŵr Cymru)

(ii) Ffordd Cefn a Ffordd yr Orsaf, Hen Golwyn – 6/12/ - 9/12/2019 (Marchnad Nadolig)
(iii) Ffordd Cilgwyn, Llanelian yn Rhos - 23/9 - 6/10/2019 (Gwaith ar Bont)
(iv) Ffordd Pen y Bryn, Bae Colwyn Uchaf – 26/9/2019 - 25.3.2021 (Arwynebedd i'r ffordd)

Penderfynwyd nodi'r rheoliadau traffig dros dro.

b) **Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar:** Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth GBS Conwy yn ymgynghori am gais am stondin casglu arian yng nghanolfan siopa Bae Colwyn dros Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar.

Penderfynwyd peidio gwrthwynebu'r cais.

c) **Adnewyddu Tocynnau Bws:** Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am y sesiynau cynorthwyo oedd am gael eu cynnal yn Llyfrgell Bae Colwyn i'r rhai oedd angen help i adnewyddu eu tocynnau bws. Fe nodwyd y bu problemau cychwynnol gyda'r system adnewyddu ar-lein, ond bod y gwasanaeth cynorthwyo lleol yn ddefnyddiol iawn i unrhyw un sydd ei angen. Mae nifer o bobl yn cynorthwyo cyfeillion, perthnasau a chymdogion.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.

ch) DYCHMYGU Bae Colwyn: Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, copi o Gofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio a gynhaliwyd ar 3ydd Medi 2019 a rhoddodd diweddariad byr ar lafar yn cadarnhau bod yr arddangosfa ffotograffiaeth 'Stad yr Annibynwyr' wedi cael ei osod yn y llochesi ar y Promenâd.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r cofnodion / adroddiad.

d) Byw yn y Bae: Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Grŵp Swyddogion ar Strategaeth Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 11/9/2019. Bu'n ymdrin â Chynllun Buddsoddi Canol y Dref (mannau integredig a bywiog) a'r ansicrwydd a ellid cyllido elfennau'r 'deyrnas gyhoeddus', prosiect y Pier (disgwylir ei gwblhau ym Mai 2020) a phrosiectau TRI oedd yn cynnwys Cam C Adnewyddu Tai, Eiddo Allweddol (Imperial a safleoedd eraill yn cynnwys Ffordd Douglas) a Cham 2B (Prosiect Lan y Môr. Fe nodwyd mai canlyniad hyn oedd bod cais wedi dod i'r swyddogion annerch aelodau'r Cyngor Tref am yr hyn a wnaed, gyda'r cynlluniau am gam nesaf prosiect Lan y Môr.

Penderfynwyd nodi adroddiad y Clerc.

dd) Is-etholiad Ward Rhiw: Hysbyswyd yr Aelodau y cadarnhawyd bydd yr Is-etholiad yn ward Rhiw yn cael ei gynnal yn Nhachwedd. Gofynnwyd iddynt ystyried a ddylid dosbarthu cardiau pleidleisio a'r dull o'u dosbarthu (canfaswyr CBSC neu'r Post Brenhinol am ddwbl y gost).

Cafwyd trafodaeth am y budd o ddefnyddio cardiau pleidleisio o ystyried y baich ar y trethdalwyr lleol. Cadarnhaodd y Clerc bod y gost o unrhyw Is-

etholiad yn cael ei dalu o'r swm a glustnodwyd gan y Cyngor Tref tuag at y prif etholiadau nesaf. Bydd hyn yn golygu bydd y gyllideb yn uwch y flwyddyn nesaf.

Gofynnodd un Cynghorydd a fyddai'n bosibl i grŵp o wirfoddolwyr dosbarthu'r cardiau pleidleisio yn gyfnewid am gyfraniad tuag at ddiffibrilwyr yn Hen Golwyn.

Datganwyd pryder na fyddai hyn yn gyfreithlon am fod y cardiau yn cynnwys data personol (a ddiogelwyd) a'r posibilrwydd bydd rhai strydoedd / eiddo yn cael eu hepgor.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu â'r Swyddog Etholiadol i ofyn a fyddai'n bosibl i wirfoddolwyr dosbarthu cardiau pleidleisio, ac os nad yw hyn yn bosibl, i gadarnhau bod angen am gardiau pleidleisio a''r dewis orau fyddai i ganfaswyr a benodwyd gan GBSC eu dosbarthu.

e) Cyllid Adran 106: Cyflwynodd y Clerc cais i'w ystyried oddi wrth Phillip Vipond, CBSC, am gefnogaeth i gael defnyddio cyllid Arian 106 i drwsio pwmp y ffynnon yng Ngerddi'r Frenhines ac i dalu am ddwy fainc newydd. Gofynnwyd amdanynt gan y Cyngor yn dilyn cais gan breswylydd o'r llety dan warchod gyferbyn a'r Gerddi am well seddau cymdeithasol.

Penderfynwyd cadarnhau cefnogaeth i'r ddau brosiect i'w cyllido gydag arian Adran 106 ar gyfer tir agored y datblygiad yn Victoria Park.

198/19 **<u>TCC:</u>** Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais am TCC yn ardal maes parcio Ivy Street yn dilyn adroddiad i nifer o gynghorwyr lleol am ddigwyddiad o ymddygiad anghymdeithasol yn ddiweddar. Fe nodwyd bod nifer o achosion anghymdeithasol ac anghyfreithlon yn digwydd yn yr ardal 'stryd gefn' hon ac efallai buasai camerâu gweledol yn help i rwystro hyn. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl i ddefnyddio, dros dro, y camerâu symudol / crwydrol yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr ymgyrch 'dim llanast'

Penderfynwyd argymell bod y Clerc i gysylltu â Rheolwr TCC gyda ChBSC i holi a fyddai'n bosibl i osod camera dros dro neu barhaol i wylio ar ardal maes parcio Ivy Street, ac os byddai hyn yn bosibl, beth fyddai'r gost.

199/19 **<u>Hysbysfyrddau:</u>**

a) Cyflwynodd y Clerc amcan bris i'w ystyried ar gyfer hysbysfwrdd newydd yn Ffordd Dewi Sant, Tan Lan. Gofynnwyd a fyddai'n well cael arwyneb meddal (h.y. nid pren haenog) i wnaed yn haws i osod hysbysebion. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc bod dyluniad yr hysbysfwrdd wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor nifer o flynyddoedd yn ôl. Wedi derbyn gwybodaeth am hysbysfyrddau caeedig gydag arwyneb meddal neu gorc, penderfynwyd parhau gyda hysbysfwrdd agored ar bren haenog. Byddai hyn yn golygu byddai'r hysbysfwrdd yn parhau i fod yn agored i'w defnyddio gan y gymuned, ac fe ellir ei 'archwilio' a'i dacluso / diweddaru yn rheolaidd gan y gymuned leol ac / neu aelodau lleol y ward.

Penderfynwyd derbyn yr amcan bris am hysbysfwrdd o'r un fath am £175.

Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r aelodau anfon unrhyw wybodaeth bellach a dderbynnir am ddeunydd arwyneb addas i hysbysfyrddau at y Clerc er mwyn ei osod ar agenda yn y dyfodol

b) Cais gan y Cynghorydd Cossey, ar ran Gymdeithas Trigolion Hen Golwyn, am hysbysfwrdd fwy yn Hen Golwyn, er mwyn cael mwy o le i hysbysebu digwyddiadau lleol a gwladol.

Fe nodwyd mai ar gyfer hysbysebu digwyddiadau'r gymuned leol y bwriadwyd hysbysfyrddau'r Cyngor ac nid ar gyfer digwyddiadau gwladol. Gwasanaeth twristiaeth / y Cyngor Sir oedd yn arfer darparu'r hysbysfyrddau hyn. Fe nodwyd hefyd bod gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n helaeth i gyhoeddi digwyddiadau a bod pobl yn dod yn llai dibynnol ar bapurau newydd lleol a phosteri.

Penderfynwyd argymell bod y cais yn cael ei wrthod am y rhesymau uchod.

200/19 <u>Gwasanaeth Tân ag Achub Gogledd Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol hirdymor.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ddogfen ymgynghori.

201/19 <u>Deall Lleoedd Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc gwahoddiad i fynychu lansiad y digwyddiad, oedd yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd yn gynharach heddiw.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu â'r trefnwyr i ofyn a fuasai'n bosibl i gynnal lansiad yng Ngogledd Cymru er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r safle newydd ac i ddangos sut y gellir ei ddefnyddio i helpu'r trefi / cymunedau a nodweddwyd.

202/19 <u>Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc copi o agenda cyfarfod chwarterol nesaf y Gymdeithas sydd i'w gynnal ar 25ain Hydref 2019 yn Nhreffynnon. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau y gofynnwyd iddi fynychu cyfarfod brys o'r Pwyllgor Gwaith ar 13eg Medi pan gafodd wybod bod ysgrifennydd y Gymdeithas am adael ei swydd am gyfnod amhenodol ac nid yw'n gweithio i Gyngor Tref Y Trallwng ar hyn o bryd. Gofynnwyd iddi a fyddai'n barod i wneud y gwaith (dros dro?) ond roedd wedi gwrthod oherwydd yr amser / adnoddau fyddai'n angenrheidiol i gyflawni'r swydd.

Penderfynwyd derbyn a nodi agenda'r cyfarfod sydd ar ddod.

203/19 <u>Siartr Goed:</u>

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am Ddiwrnod Siartr Goed ar 30ain Tachwedd 2019.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon y wybodaeth yma ymlaen i Ffederasiwn Cadwraeth ag Amgylcheddol Bae Colwyn mewn perthynas â phlannu coed ym Mharc Eirias.

204/19 <u>Gohebiaeth Arall:</u>

Fe nodwyd bod yr ohebiaeth ganlynol ar gael gan y Clerc ar gais.

(i) Taflen Newyddion yr Hydref Cymdeithas Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn
(ii) Rhaglen Llesiant yn y Gymuned Hydref / Gaeaf 2019

205/19 <u>Cynllunio</u>:

a Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b Cyflwynodd y Clerc copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 9/9/19 hyd at 22/9/19 er gwybodaeth.

c Fe nodwyd bod **c**ais **c**ynllunio O/46513 (13 Abbey Drive, Llandrillo yn Rhos) wedi cael ei dynnu'n ôl.

ch Apêl Cynllunio:
Cyflwynodd y Clerc copi o benderfyniad yr Apêl ar gyfer Cais Cynllunio O/46226.

d Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio:

(i) Cyflwynodd y Clerc copi o nodiadau cyfarwyddo i bobl sydd eisiau siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio.

(ii) Rhoddodd y Clerc diweddariad byr i gadarnhau i gais y Cyngor Tref cael siarad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio ynglŷn â 5 Ffordd Grosvenor wedi cael ei wrthod, er yr apêl gan y Cadeirydd. Fodd bynnag, cafwyd cynnig gan Bennaeth yr Adran Cynllunio yn hytrach, i ddosbarthu sylwadau ysgrifenedig y Cyngor Tref i Aelodau'r Pwyllgor.

Penderfynwyd derbyn y cynnig hwn a fydd yn adlewyrchu pryderon allweddol y Cyngor Tref am y cynlluniau diwygiedig.

dd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:
Atgoffwyd yr Aelodau ar lafar am y sesiwn galw i mewn sydd i'w gynnal yn Llyfrgell Bae Colwyn ar 10fed Hydref 2019 ac fe nodwyd bydd angen cytuno ar ymateb i'r ymgynghoriad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Penderfynwyd anfon y cyswllt i'r Ddogfen ymgynghori at bob Aelod fel darpariaeth am y cyfarfod nesaf.

206/19 <u>Trwyddedau:</u> Derbyniodd yr Aelodau'r rhestr o geisiadau am drwyddedau ac fe'u nodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 pm …… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6:30PM ON TUESDAY 8TH OCTOBER 2019, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: The Mayor, Cllr N Bastow
Cllr C Brockley, Chairman
Cllrs: B Barton; D Bradley; G Campbell; Mrs M Jones (Deputy Mayor); C Matthews; M Tasker; S Williams; M Worth

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk
Mrs R Dudley, Assistant Clerk

193/19 Welcome and Apologies for Absence:

The Chairman welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: G Baker and J Pearson.

194/19 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

195/19 Minutes:

a) ***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 17th September 2019.***

b) ***Resolved to receive the minutes of the Bonfire Sub-committee held on 10th September 2019.***

196/19 Matters Arising from the Minutes:

a) Min 182/19(b) – Litter Bins:

(i) The Clerk tabled an email from Conwy CBC to confirm that they would be willing to swap the larger bin from outside the Spar with the smaller one at the Princess Diana Garden in Rhos-on-Sea. However, it was noted that the larger one did not have flaps and seagulls may remain a problem.

(ii) It was noted that the cost to replace the bin with a new one, with flaps, would be approximately £500 and that the County Council has no funding, or stock of bins to replace any.

Resolved to recommend that the request for the bin to be swapped with the one from the Spar is confirmed.

Further resolved that local members keep an eye on the condition of bins in their wards and consider using ward allowance funding if there are any they would like replaced.

b) Min 182/19(d) – Play Sufficiency Research:

Cllr G Campbell gave a verbal report on the recent focus group meeting,

which had shared the results of a recent research project in which CCBC/Colwyn Bay had received some positive feedback, particularly around the summer open access play provision. Conwy is focussing on the 'right to play' and play sufficiency needs to address how children play: making play areas more accessible to all; not necessarily full of equipment, but using more natural play environments.

It was noted that 'austerity' had provided an opportunity to re-think traditional play provision and consider a strategy to move away from more formal play areas. Some of the barriers for children to be able play in more informal areas would need to be addressed, such as parental concern, neighbour objections, land being privatised etc. However, the planning system could help with encouraging more free-play opportunities in new development sites, with informal open grassed areas with trees etc (and no 'no ball games' signs). Toilets near play areas also need to be disabled/child friendly.

Cllr Campbell was thanked for her comprehensive and informative report.

c) Min. 171/19(f) – Bonfire Event:

(i) The arrangements for this year's event were noted and the Clerk gave a brief verbal update, informing members that the Civic Centre car park would not be available this year.

(ii) The Clerk tabled e-mail correspondence from the Event Safety Officer, recommending switching to a local company to provide the first aid / paramedic cover required for this year's event, rather than the local St John Ambulance team. It was noted that the event has grown significantly in recent years, with headcounts over the past two years confirming attendance of around 7,500. This brings the event into a higher risk category, requiring a minimum level of first aid/ paramedic cover. The Event Safety Officer put forward a number of reasons for supporting a change in provider for this cover, including the level of training/expertise of the Medic Skills team, their experience in working at other major events in Eirias Park and their familiarity with the procedures for working with the Event Control, in case of serious incidents. It was noted that the price quoted for the provision of first aid / paramedic cover for the event (£300) was not dissimilar to the cost of the provision offered/provided by St John's.

Resolved to support the change in provider for this year's event, for the reasons outlined above.

197/19 <u>Conwy CBC</u>:

The Clerk submitted, for information/consideration, the following correspondence from CCBC:

a) Notice of Requests for a Temporary Traffic Regulation:

(i) Greenfield Road to Promenade Link Path – 4/11/- 20/12/2019 (Welsh Water Works)

(ii) Cefn Road and Station Road, Old Colwyn – 6/12 – 9/12//2019 (Christmas Market)

(iii) Cilgwyn Road, Llanelian yn Rhos– 23/09-06/10/2019 (Bridge Work)

(iv) Pen y Bryn Road, Upper Colwyn Bay – 26/09-25/03/2021 (Carriageway Resurfacing)

Resolved to note the temporary traffic regulations.

b) National Deaf Children's Society:

The Clerk submitted an e-mail from Conwy CBC consulting on a request for a fund-raising stand in the Colwyn Bay precinct for National Deaf Children's Society.

Resolved to submit no objections to the request.

c) Bus Pass Renewal:

The Clerk submitted information about support sessions to be held in Colwyn Bay library for those needing assistance to renew their bus passes. It was noted that there had been some initial problems with the online renewal system, but the local support service is very helpful for anyone needing it and many people are helping their friends, relatives and neighbours.

Resolved to receive and note the correspondence.

d) IMAGINE Colwyn Bay: The Clerk submitted, for information, a copy of the Minutes from the Steering Group Meeting held on 3rd September 2019 and gave a brief verbal update, confirming that the 'State of Independents' photography exhibition had now been installed in the Promenade bus shelters.

Resolved to receive and note the minutes/report.

e) Bay Life: The Clerk gave a brief verbal report on the Bay Life Strategic Officer Group held on 11/09/2019 covering the Town Centre Investment Plan (integrated and animated spaces) and uncertainty about whether any 'public realm' elements could be funded, the Pier project (completion now expected May 2019), and TRI projects, which include Housing Renewal Phase C, Key Properties (Imperial and other potential sites, including Douglas Road) and the Waterfront Phase 2B. It was noted that this had resulted in a request for Officers to attend and address the Town Council members regarding the progress with plans for the next stage of the Waterfront project.

Resolved to note the Clerk's report.

f) Rhiw By-Election: Members received information confirming the by-election for Rhiw Ward in November and were asked to consider whether poll cards should be issued and, if so, which is the preferred method of delivery (using CCBC canvassers or sending by royal mail, which would cost twice as much).

A discussion ensued around the benefits of having poll-cards, but recognising the burden on local taxpayers. The Clerk confirmed that the cost of any by-elections comes from the amount set aside annually by the Town Council towards the next main elections, which results in a higher budget being required next year.

A Councillor asked if it would be possible for a group of volunteers to deliver the poll cards, in return for a donation to a fund for defibrillators in Old Colwyn. Concern was expressed that this may not be lawful, due to the cards containing personal (protected) data and due to the potential to miss certain streets/properties.

Resolved to request that the Clerk contacts the Electoral Officer to enquire if it would be possible for volunteers to deliver the poll cards and, if not, to confirm that poll cards are required and that the preferred option would be delivery by CCBC appointed canvassers.

g) S.106 Funding: The Clerk tabled, for consideration, a request from Philip Vipond, CCBC, for support to use S.106 funding to repair the pump for the fountain in Queen's Gardens and to pay for the two new benches, which had been requested by this Council to provide more sociable seating, following a discussion with a resident of the sheltered housing/flats opposite the gardens.

Resolved to confirm support for the two projects to be funded from the S.106 monies held for open spaces in respect of a development in Victoria Park.

198/19 <u>CCTV</u>:

Members were asked to consider a request for CCTV coverage in Ivy Street car park area, after a recent incident of anti-social behaviour had been brought to the attention of a number of local councillors. It was noted that this 'back-street' area suffers frequent issues with anti-social or illegal activities and visible cameras may help prevent this. It was queried whether a portable/roving camera, like those used for the 'no messing' campaign could be used, as a temporary measure.

Resolved to recommend that the Clerk contacts the CCBC CCTV Manager to enquire if it would be possible to place a temporary or permanent camera covering the Ivy Street car park area and, if so, what the likely cost would be.

199/19 <u>Noticeboards</u>:

a) The Clerk submitted, for consideration, a quotation for the replacement of the noticeboard on St David's Road, Tan Lan. It was queried whether a softer surface could be used (i.e. not plywood) to make it easier to add notices. The Clerk advised members that noticeboard design had been discussed by the committee several years ago and, following receipt of information about enclosed noticeboards with soft or cork interiors, members had decided to continue with open-access plywood boards. This meant that the noticeboards would continue to be easily accessible for community use, but could be 'policed' and tidied/updated regularly by the local community and/or local ward members. It was queried if any S.106 monies may be available, but members noted that the Town Council had a street furniture budget set aside for repairs to assets such as noticeboards.

Resolved to accept the quotation for a like-for-like replacement board, at a cost of £175.

Further resolved to request that members send any further information which may be obtained in respect of suitable notice board backing materials to the Clerk, for placing on a future agenda.

b) To consider a request from Cllr Brian Cossey, on behalf of OCRA, for a larger noticeboard in Old Colwyn, to give more space for town and countywide events to be advertised.

It was noted that the Town Council's noticeboards are intended for local/community based notices and events only and were never intended for publicising countywide events. These kind of boards used to be provided by the County Council / Tourism section. It was further noted that websites and social media are now used more widely for publicising events and people are becoming less reliant on local newspapers and posters.

Resolved to recommend that the request be declined, for the reasons stated above.

200/19 <u>North Wales Fire and Rescue Service</u>:

The Clerk submitted information regarding a public consultation on developing a long-term Environmental Strategy.

Resolved to receive and note the consultation document.

201/19 <u>Understanding Welsh Places</u>:

The Clerk submitted an invitation to attend the launch event, being held in Cardiff earlier today.

Resolved to request that the Clerk contacts the organisers to enquire if a launch event could be held in North Wales to publicise the new site and demonstrate how it can be used to assist the featured towns/communities.

202/19 <u>N&MWALC</u>:

The Clerk submitted a copy of agenda for the next quarterly meeting of the association, to be held on 25th October 2019 in Holywell. The Clerk informed members that she had been asked to attend an urgent meeting of the Executive Committee on 13th September, where she had been informed that the association's secretary is on leave indefinitely and not undertaking any work for Welshpool TC at the current time. She had been asked if she would be willing to take on the role (temporarily?), but had declined this due to the time/resources it would require to fulfil the needs of the role.

Resolved to receive and note the agenda for the forthcoming meeting.

203/19 <u>Tree Charter</u>:

The Clerk submitted information regarding Tree Charter Day on 30th November 2019.

Resolved to request that the Clerk forwards this information to the Colwyn Bay Conservation and Environment Federation, in connection with tree planting in Eirias Park.

204/19 <u>Other Correspondence:</u>

It was noted that the following items are available on request from the Clerk:
a) Autumn Newsletter from Llandudno and Colwyn Bay Tramway Society
b) Community Wellbeing Programme Autumn/Winter 2019

205/19 <u>Planning:</u>

a) The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.
Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.

b) Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 9/9/19 to 22/9/19.

c) It was noted that application 0/46513 (13 Abbey Drive, Rhos-on-Sea) has been withdrawn.

d) Planning Appeal:
The Clerk submitted, for information, a copy of the appeal decision for Planning Application 0/46226.

e) Planning Committee Meeting:
(i) The Clerk submitted a copy of the guidance notes issued to people wanting to speak at a Planning Committee meeting.
(ii) The Clerk gave a brief update, confirming that the Town Council's request to speak at the next Planning Committee meeting in respect of 5 Grosvenor Road had been declined, despite an appeal to the Chairman. However, an offer had been made by the Head of Planning to instead circulate the Town Council's written observations to the members of the committee.
Resolved to accept this offer, which will help to highlight the key concerns of the Town Council in respect of the amended plans.

f) National Development Framework:
Members were given a verbal reminder about the drop-in session being held in Colwyn bay Library on 10th October 2019 and it was noted that a response to the consultation will need to be agreed at the next meeting of the committee.
Resolved to forward the link to the consultation document to all members in preparation for the next meeting.

206/19 <u>Licensing:</u> Members received and noted the list of licensing applications.

The meeting closed at 8.05 p.m. ……. Chairman